**Dydd Mercher 27 Tachwedd 2002**

## Premiwm Blynyddol Defaid

### Y Cynllun

Mae'r Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid yn rhan o gyfundrefn yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cig defaid a geifr. Nodir amodau sylfaenol y gyfundrefn yn Rheoliad CE 2529/2001 y Cyngor. Diben y gyfundrefn yw cael un farchnad gyda'r un amodau ar draws pob Aelod-wladwriaeth a gwarantu'r un lefel o gefnogaeth i bob cynhyrchydd.

Y flwyddyn hon, pennwyd mai 21 Ewro fydd gwerth y Premiwm ac mai 7 Ewro fydd gwerth yr atodiad Ardal Lai Ffafriol. Defnyddir y gyfradd gyfnewid briodol i gyfrifo'r gwerth mewn sterling.

Cyn eleni, talwyd y SAPS mewn tri thaliad ar wahân: taliad cyntaf o 30% o fis Gorffennaf ymlaen; ail daliad o 30% o fis Hydref ymlaen fel arfer; a’r taliad olaf o 40% erbyn y mis Ebrill dilynol fel arfer. Os yn briodol, telir atodiad Ardal Lai Ffafriol (ALFf) hefyd. Roedd yr ALFf yn cael ei dalu mewn dwy ran gyda'r taliad cyntaf yn cael ei wneud yr un pryd â'r taliad premiwm cyntaf a'r taliad olaf yr un pryd â'r taliad premiwm olaf.

Mae tua 12,500 o gynhyrchwyr yn hawlio SAPS yng Nghymru.

### Perfformiad mewn Blynyddoedd Blaenorol

Yn nhair blynedd diwethaf y cynllun (SAPS 1999 i 2001) roedd Llywodraeth y Cynulliad ymhlith y cyntaf i dalu premiwm i gynhyrchwyr. Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn a gyflawnwyd yn y cyfnod hwn. Fe wnaethom brosesu taliadau olaf SAPS 2000 a thri thaliad 2001 cyn yr RPA yn Lloegr a SEERAD yn yr Alban.

| | |
|---|---|
| TALIADAU OLAF SAPS 1999 | Proseswyd 98% o'r taliadau olaf erbyn 30 Ebrill 2000. 37% oedd y ffigur ar gyfer y flwyddyn flaenorol. |
| TALIADAU CYNTAF SAPS 2000 | Proseswyd y ceisiadau a derbyniodd y cynhyrchwyr cymwys eu taliadau ynghynt nag mewn blynyddoedd blaenorol. Derbyniodd tua 3500 o gynhyrchwyr daliadau gwerth dros £8 miliwn cyn diwedd mis Gorffennaf 2000. |

| | |
|---|---|
| AIL DALIADAU SAPS 2000 | Hysbysu’r Gyfradd ar 18/10/2000. Proseswyd dros 90% o'r ceisiadau o fewn 6 diwrnod gwaith |
| TALIADAU OLAF SAPS 2000 | Proseswyd 93% o fewn blwyddyn ariannol 2000. Proseswyd 95% erbyn 12 Ebrill 2001. Dechreuodd MAFF eu prosesu ddiwedd mis Ebrill 2001 |
| TALIADAU CYNTAF SAPS 2001 | 90% wedi'u prosesu erbyn diwedd Gorffennaf 2001 |
| AIL DALIADAU SAPS 2001 | Dechreuwyd eu prosesu ar 15/10/2001. 96% wedi'u prosesu erbyn 17/10/2001 |
| TALIADAU OLAF SAPS 2001 | Dechreuwyd eu prosesu ar 18 Chwefror 2002 (dros fis ynghynt nag mewn blynyddoedd blaenorol). Proseswyd 92% o'r ceisiadau erbyn 25 Mawrth 2002 |

**Rhaglen JIGSAW**

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r rhaglen hon o newidiadau yn Is-adran Rheoli'r PAC a ddechreuwyd ym 1999 mewn ymateb i'r gwasanaeth gwael yr oedd ffermwyr yn ei dderbyn a'r oedi cyson, o rai misoedd yn aml, wrth wneud taliadau. Bydd yr aelodau eisoes yn ymwybodol o'r gwelliannau i'n gwasanaethau rheng flaen gan gynnwys dogfennau symlach a byrrach, penodi swyddogion cyswllt ffermydd, gwasanaethau maes megis clinigau cofnodion a gwasanaethau IACS mewn marchnadoedd da byw, gwell derbynfeydd yn y Swyddfeydd Rhanbarthol, oriau agor estynedig yn y Swyddfeydd Ardal, system apeliadau annibynnol, gwella'r cyfathrebu â ffermwyr trwy Gwlad, fforymau ffermwyr ac ati a darparu mapiau digidol ar gyfer ffermwyr. Un o brif elfennau'r weledigaeth ar gyfer JIGSAW yw cyflwyno systemau talu a rheoli cyfrifiadurol newydd yn lle'r systemau hen a hen ffasiwn a oedd yn mynd yn fwyfwy anodd a drud i’w cynnal. Dechreuodd y rhaglen newydd hon gydag IACS 2002 yn gynharach eleni a'r SAPS yw'r cynllun taliadau cyntaf i ddod o dan y drefn newydd. Bydd yr holl gynlluniau eraill yn dod yn rhan o'r system newydd dros y 12 mis nesaf.

Fe grewyd system gyfrifiadurol newydd ar gyfer Grwp Cyllid y Cynulliad eleni hefyd a chan fod y system gwneud taliadau a rheoli’n dibynnu ar gyswllt rhwng y ddwy system, bu'n rhaid gwneud gwaith ychwanegol i gwblhau a phrofi'r cysylltiadau rhyngddynt.

**Y Sefyllfa Gyfredol**

Eleni am y tro cyntaf telir y SAPS, ac - os yn briodol - yr Atodiad ALFf, mewn un taliad. Rydym yn rhoi un taliad o £13.30 ar gyfer pob mamog, sef y premiwm a'r taliad ychwanegol o'r Amlen Genedlaethol Defaid, gydag atodiad ALFf o £4.21 ar gyfer pob mamog. (Ffigurau ar ôl modwleiddio). O dan reolau’r UE, rhaid talu’r SAPS yn y cyfnod rhwng 16 Hydref 2002 a 31 Mawrth 2003.

Mae'r swyddogion wedi bod yn gweithio'n galed i roi'r system newydd ar waith gyda'r nod o dalu'r premiwm cyn gynted â phosibl yn y cyfnod talu, a’n bwriad gwreiddiol oedd dechrau prosesu erbyn diwedd mis Hydref. Yn y diwedd, nid oedd yn bosibl rhyddhau'r taliadau ym mis Hydref, gan nad oedd y profion terfynol ar Systemau Cyfrifiadurol yr Adran Amaethyddiaeth a'r Adran Gyllid wedi'u cwblhau'n ddigonol. Pe baem wedi penderfynu rhyddhau'r taliadau cyn rhoi'r trefniadau rheoli priodol yn eu lle, mae’n sicr y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi bod gwerth miliynau o bunnau o daliadau yn annilys.

Dechreuodd y gwaith prosesu ddydd Llun 18 Tachwedd, fodd bynnag, a'r disgwyl yw y bydd dros 70% o'r taliadau wedi'u rhyddhau erbyn dydd Gwener 22 Tachwedd. Bydd y ffermwyr hynny sy’n derbyn taliadau electronig

BACS yn derbyn taliad o fewn 4 diwrnod ar ôl inni brosesu’r cais.

**Gwybodaeth**

Rydym wedi ceisio hysbysu'r diwydiant am hynt y cynllun. Fe wnaeth y swyddogion gwrdd â chynrychiolwyr yr undebau ffermio ganol mis Medi i'w rhybuddio bod perygl y gallai'r taliadau fod yn hwyr yn cyrraedd eleni ac i amlinellu sut yr oeddem yn bwriadu ymdrin â'r sefyllfa. Roedd rhifyn mis Tachwedd o Gwlad yn cynnwys llythyr yn egluro'r sefyllfa gyda SAPS ac mae unigolion sydd wedi cysylltu â’r swyddfeydd Amaeth wedi cael clywed am y sefyllfa ddiweddaraf ac wedi cael y cyfle i dderbyn taliad o dan yr hen drefn os oeddent yn gallu rhoi tystiolaeth eu bod yn dioddef caledi neilltuol.

**Y Rhagolygon**

Ein nod yw prosesu dros 90% o'r ceisiadau erbyn diwedd y mis a byddwn yn rhoi adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Tachwedd. Nid yw’n bosibl prosesu 100% o'r ceisiadau yn gyflym gan y gall llu o broblemau gwahanol godi gyda cheisiadau unigol.

Telir yr atodiad ALFf o £4.21 ar gyfer pob anifail cymwys ar ôl y prif daliad premiwm. Bydd amseriad y taliadau hyn yn dibynnu ar ba mor gyflym y gellir dilysu cais IACS unigol pob cynhyrchydd a byddwn yn rhoi sylw i'r mater hwn unwaith y byddwn wedi sicrhau bod y prif daliadau premiwm wedi'u rhyddhau’n gyflym. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl gallu ddechrau talu atodiadau ALFf ddechrau mis Rhagfyr.

Mae’r tabl isod yn dangos y sefyllfa ar hyn o bryd

| DYDDIAD | NIFER Y TALIADAU | GWERTH |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun | 10 | £23K |
| DYDD MAWRTH | 3913 | £23 MILIWN |
| DYDD MERCHER | 3686 | £17 MILIWN |
| DYDD IAU/DYDD GWENER | TUA 2000 | HEB WYBOD |

Mae'r swyddogion yn deall pa mor bwysig yw'r taliadau hyn ac maent wedi bod yn gweithio oriau estynedig ers mis Medi i roi'r systemau ar gyfer prosesu'r taliadau hyn ar waith.